**Cyfarfod Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar Ofalwyr Di-dâl**

**Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Dawn Bowden AS | Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol |
| Andy Lock | Ysgrifennydd Preifat i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol |
| Alwyn Jones | Cadeirydd |
| Taryn Stephens | Llywodraeth Cymru |
| Denise Moultrie | Llywodraeth Cymru |
| Mark Price | Llywodraeth Cymru |
| Bobbie-Jo Haarhoff | Gofalwr di-dâl |
| Jayne Newman | Gofalwr di-dâl |
| Kai Collins | Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc |
| Rachel Clement | Plant yng Nghymru |
| Kim Dolphin | Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr |
| Claire Morgan | Gofalwyr Cymru |
| Kate Cubbage | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| Rachel Williams | Y Gynghrair Gofal |
| Kate Young | Fforwm Cymru Gyfan |
| Anna Bird | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Marie Davies | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| David Watkins | Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Amy Hawkins | Cyngor Dinas Abertawe |
| Avril Bracey | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Naheed Ashraf | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |

<u>Yn bresennol ar-lein</u>

| | |
|---|---|
| Andy Pithouse | Cynghorydd Arbennig i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol |
| Diane Seddon | Prifysgol Bangor |
| Jon Day | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Valerie Billingham | Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Elinor Jones | Llywodraeth Cymru |

**Ymddiheuriadau**

| | |
|---|---|
| Kathy Proudfoot | Rhwydwaith Dysgu a Gwella Swyddogion Gofalwyr |
| Natasha James | Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg |
| Naomi Harper | Cyngor Sir y Fflint |
| Ffion Johnstone | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Iain McMillan | Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg |
| Y Cyng. Jane Tremlett | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Claire Roche | Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Pennie Muir | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Angela Hughes | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Alyson Hoskins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |

## 1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chyflwynwyd y rhai a oedd yn bresennol.

## 2. Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol

Roedd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol yn falch iawn o gael cyfarfod â'r grŵp yn rhinwedd ei rôl newydd, yn arbennig gan mai hwn oedd y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf ers y pandemig. Cydnabu'r Gweinidog yr agenda lawn ar gyfer y diwrnod a oedd yn ymdrin â meysydd allweddol megis y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl. Cydnabu'r Gweinidog y ddealltwriaeth bwysig sydd gan y grŵp wrth inni fwrw ati i adolygu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl ac atgyfnerthu ein hymrwymiad i ofalwyr di-dâl. Mae'n hanfodol bod rôl a barn gofalwyr di-dâl yn cael eu cydnabod a'n bod yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol gyda'r grŵp.

Roedd y Gweinidog yn falch o glywed am waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen o ran hyrwyddo gwelliant a mynediad amserol at wybodaeth ac asesiadau anghenion gofalwyr. Tynnwyd sylw hefyd at y gwaith o godi ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc a'r cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc. Wrth ddatblygu'r gwaith hwn, mae swyddogion wedi ceisio barn gofalwyr ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd Cynghori Gofalwyr Ifanc. Diolchodd y Gweinidog i Kai Collins am fod yn bresennol yn y cyfarfod i gynrychioli gofalwyr ifanc. Roedd y Gweinidog hefyd yn falch o gyhoeddi cyllid i gefnogi'r ŵyl gofalwyr ifanc am y drydedd flwyddyn yr haf hwn.

Wrth gloi, diolchodd y Gweinidog i Claire Morgan, Cyfarwyddwr Gofalwyr Cymru, am ei gwaith dros y saith mlynedd diwethaf a'i chyfraniad at waith y grŵp hwn, wrth iddi adael Gofalwyr Cymru.

## 3. Gweithdy – Adolygu'r Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-dâl – Denise Moultrie

Rhoddodd Denise Moultrie drosolwg o'r gwaith a ragwelir o ran adolygu'r strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl, a nodau'r gweithdy heddiw i geisio barn y grŵp wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

<u>Crynodeb o’r drafodaeth</u>

**Trafodaeth ynghylch blaenoriaeth un – adnabod a gwerthfawrogi gofalwyr di-dâl**

Cytunwyd bod hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae gwrando ar ofalwyr yn allweddol, yn ogystal ag addysgu gofalwyr ynghylch y cymorth sydd ar gael. Trafodwyd materion o ran labeli a therminoleg gan fod y termau 'gofalwr di-dâl' a 'gofalwr' yn cael eu hystyried yn rhwystr i fynediad at gymorth, gan gynnwys mewn rhai diwylliannau. Trafodwyd y term 'edrych ar ôl' yn ogystal ag ansawdd y sgwrs â gofalwyr. Ni chaiff 'gofalwr di-dâl' ei gydnabod, neu caiff ei herio gan rai os yw'n cael Lwfans Gofalwyr. Mae angen gwneud rhagor o waith o ran adnabod gofalwyr. Nid yw rhai gofalwyr di-dâl eisiau cael eu hadnabod na chael asesiad.

**Trafodaeth ynghylch blaenoriaeth dau – darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth**

Cytunwyd bod hwn yn parhau i fod yn fater pwysig. Trafodwyd y gwaith o ddatblygu cyfeiriadur ar-lein ond bod cadw gwybodaeth yn gyfredol yn heriol. Nodwyd rôl cysylltwyr cymunedol o ran rhannu gwybodaeth am adnoddau lleol – yn ogystal ag ymarferwyr cyffredinol, ymarferwyr presgripsiynu cymdeithasol a DEWIS. Dylai canolfannau lleol i ofalwyr fod yn ymwybodol o'r holl adnoddau lleol. Holwyd beth sy'n gwneud sgwrs yn un dda? Gall sgyrsiau fod yn llethol neu gallant gynnwys gwybodaeth anghywir. Dylid cysylltu gwybodaeth ag amgylchiadau unigol a phenodol.

**Trafodaeth ynghylch blaenoriaeth tri – helpu i fyw yn ogystal â gofalu**
Holwyd a yw gwaith ac addysg (Blaenoriaeth 4) yn rhan o'r flaenoriaeth hon yn ogystal â Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (Blaenoriaeth 2). Roedd gofalwyr di-dâl yn ganolog i'r drafodaeth hon. Rhannwyd barn gofalwyr di-dâl a nodwyd bod peidio â chael llais yn rhwystredig ac yn niweidiol. Mae angen hefyd i awdurdodau lleol fod yn fwy hyblyg a chytunwyd y dylai'r sector iechyd a'r trydydd sector fod yn rhan o'r trafodaethau.

**Trafodaeth bellach ar y meysydd blaenoriaeth**

Cytunwyd bod y pedair blaenoriaeth yn parhau wrth symud ymlaen ond cydnabuwyd bod rhai wedi newid ychydig a bod angen adlewyrchu hyn wrth eu hadnewyddu. Nodwyd hefyd rwystrau i ofalwyr ifanc mewn addysg uwch a'r angen i hyrwyddo'n well y cymorth sydd ar gael, mapio cyfleoedd a chodi ymwybyddiaeth. Yn ogystal, mae angen mynd i'r afael â gwella'r cymorth ariannol a gwneud mwy yn arbennig o ran yr argyfwng costau byw a hyrwyddo Lwfans Gofalwyr.

**4. Y diweddaraf am Gardiau Adnabod i Ofalwyr Ifanc a thrafodaeth - Mark Price**

Rhannodd Mark Price gefndir a'r amcanion ar gyfer y gwaith hwn o ran adnabod a helpu gofalwyr ifanc. Cafwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am y cyfarfodydd sydd wedi'u cynnal hyd yma gyda'r awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach. Rhagwelir rhagor o gydweithio yn y dyfodol. Cadarnhaodd Mark Price hefyd gynlluniau i weithio gyda fferyllfeydd, a rhannodd wybodaeth am y gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd i lunio arolwg i fferyllfeydd ynghylch eu hymwybyddiaeth a'u hymwneud â gofalwyr ifanc.

Mae gweithgor gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnwys Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru a chydweithwyr o gyfarwyddiaethau addysg a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Bydd ymwybyddiaeth o ofalwyr ifanc, yn ogystal â'r cerdyn adnabod i ofalwyr ifanc, yn cael eu hyrwyddo yn ystod Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin ac yn ystod yr hydref. Bydd hyn yn golygu cydweithio'n agos ag ysgolion.

<u>Trafodaeth grŵp</u>

Nodwyd pwysigrwydd ymwneud â phenaethiaid. Cadarnhaodd swyddogion eu bod yn gweithio gyda'r Prif Swyddog Fferyllol fel pwynt cyswllt â fferyllfeydd cymunedol ac mai penderfyniad fferyllwyr unigol yw rhoi meddyginiaeth yn ddiogel i ofalwyr ifanc. Trafodwyd y gwahaniaethau rhwng cynlluniau awdurdodau lleol o ran cardiau

adnabod i ofalwyr ifanc. Nodwyd y dylai astudiaethau achos sy'n cael eu cynhyrchu ar ffurf fideo hyrwyddo arferion da mewn ysgolion a cholegau.

**5. Y diweddaraf gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen**

Rhannodd Denise Moultrie yr wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp, gan gynnwys llunio arolwg ar gyfer awdurdodau lleol. Roedd yr arolwg hwn yn gofyn i awdurdodau lleol hunanasesu a nodi arferion da. Cadarnhawyd bod 80 o ymatebion wedi dod i law. Mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i lunio arolwg ar gyfer byrddau iechyd i roi gwybod am eu cyfrifoldebau o ran darparu gwybodaeth i ofalwyr di-dâl a'u cyfeirio at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Rydym yn gweithio'n agos gyda Gofalwyr Cymru i ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eu harolwg Dilyn y Ddeddf ar gyfer gofalwyr di-dâl. Rydym hefyd yn trefnu gweithdai ymgynghori â gofalwyr di-dâl. Byddwn wedyn yn casglu'r holl wybodaeth a rannwyd ac yn cytuno ar y camau nesaf gyda phartneriaid statudol.

**6. Gofalwyr di-dâl sy'n cael cymorth – Data**

Rhoddodd Joseph Wilton y diweddaraf am waith sydd wedi'i gomisiynu gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog i ddatblygu dulliau newydd i awdurdodau lleol gasglu data ynghylch gofalwyr di-dâl. Mae hyn yn debygol o ganolbwyntio ar ofalwyr di-dâl sydd wedi cael asesiad anghenion gofalwyr a bydd yn ein galluogi ni i ddeall yn well y boblogaeth o ofalwyr di-dâl sy'n elwa ar asesiadau a chymorth dilynol posibl.

<u>Trafodaeth grŵp</u>

Cafwyd rhai awgrymiadau ynghylch data defnyddiol i'w gofnodi.

**7. Cylch gorchwyl**

Mae'r cylch gorchwyl bellach wedi'i gytuno a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yr wythnos yn dechrau 10 Mehefin, bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at aelodau perthnasol i'w gwahodd i lunio datganiad byr o ddiddordeb ar gyfer rôl yr is-gadeirydd. Yr aelodau perthnasol yw ein gofalwyr di-dâl a phedwar aelod o'r Gynghrair Gofalwyr. Bydd y Gweinidog Gofal Cymdeithasol yn penodi yn seiliedig ar y datganiadau o ddiddordeb a fydd wedi dod i law.

Bydd ymarfer hefyd yn cael ei gynnal i edrych ar aelodaeth gyfredol Grŵp Cynghori'r Gweinidog i adnewyddu aelodaeth y rhai ar y grŵp sydd wedi bod yn aelodau ers dros dair blynedd. Bydd amserlen yn cael ei llunio a'i rhannu â'r grŵp er mwyn ymgynghori arni.

**8. Gweithdai**

**Ymwneud ag ystod amrywiol o ofalwyr di-dâl – sut allwn ni ddod i gysylltiad â mwy ohonynt?**

<u>Crynodeb o'r drafodaeth -</u> Gallem weld bod yr hyn sy'n bwysig inni gyd, megis teulu, gweithgareddau cymdeithasol a gwaith, hefyd yn bwysig i ofalwyr di-dâl. Mae'r

pethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol o bosibl, megis cwsg, preifatrwydd ac ati, yn bwysig iawn i ofalwyr di-dâl. Trafodwyd sut i ddod i gysylltiad â mwy o ofalwyr a sut i ymwneud ag ystod amrywiol ohonynt. Ystyriodd y rhai a oedd yn rhan o'r drafodaeth fod angen inni gyhoeddi straeon cadarnhaol a deall a diwallu anghenion sydd wedi'u hasesu mewn modd teg ac amserol. Mae angen i ofalwyr di-dâl fod yn ganolog i'r cymorth a ddarperir i'r person y gofelir amdano. Mae meithrin ymddiriedaeth rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol hefyd yn bwysig. Dylid cynllunio gwasanaethau gan ddefnyddio data'r cyfrifiad sydd ar gael.

**Cyfleu'r neges mewn modd priodol i annog gofalwyr i hunanadnabod**

Crynodeb o'r drafodaeth - Nodwyd bod negeseuon am rolau gofalwyr di-dâl yn gallu bod yn gwbl negyddol ac y dylem ystyried y cydbwysedd â negeseuon mwy cadarnhaol pan fo'n briodol ac yn iawn gwneud hynny. Mae'r iaith a ddefnyddir hefyd yn bwysig a thrafodwyd yr anawsterau wrth geisio defnyddio systemau.

Trafodwyd sut rydym yn ystyried negeseua ac yn cydnabod gwahaniaethau diwylliannol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cynnal iechyd corfforol ac iechyd meddwl ein gofalwyr. Mae angen ystyried hyn wrth adolygu'r strategaeth genedlaethol. Cydnabuwyd pwysigrwydd defnyddio cyfryngau cymdeithasol o ran mynediad at wybodaeth ac asesiadau anghenion gofalwyr, pan fo hynny'n briodol. Mae gofalwyr yn dueddol o fynd at wasanaethau pan fo'r person y gofelir amdano mewn argyfwng a dylid ystyried hyn o ran cynnwys ac amseriad negeseuon. Dylid teilwra negeseuon ar gyfer cynulleidfaoedd targed amrywiol.

**9. Camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 11 Mawrth ac unrhyw fater arall**

Camau gweithredu i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

**10. Myfyrio ar y diwrnod**

Diolchodd y Cadeirydd i'r grŵp gan fyfyrio ar y trafodaethau cadarnhaol a gynhaliwyd yn ystod y diwrnod. Diolchodd hefyd am y cyfle i gyfarfod â'r grŵp wyneb yn wyneb.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 9 Medi (ar-lein)